

16 Mai 2013

Data iaith Gymraeg - trydydd datganiad

Pwyntiau allweddol

- Yn 2011, roedd 23.3 y cant o'r boblogaeth 3 oed a throsodd oedd wedi'u geni yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 24.7 yn 2001.
- O'r rheini oedd heb eu geni yng Nghymru, roedd 8.0 y cant yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 9.0 yn 2001.

Ar draws awdurdodau lleol, o'r rheini oedd wedi'u geni yng Nghymru, roedd y gyfran sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio'n sylweddol o'r gyfran gyffredinol sy'n gallu siarad Cymraeg. Roedd y gwahaniaethau mwyaf yn yr ardaloedd mwyaf Cymraeg eu hiaith.

- Yng Ngheredigion, roedd 74.6 y cant o'r boblogaeth oedd wedi'u geni yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg (o'i gymharu â 47.3 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol).
- Yng Ngwynedd, roedd 88.7 y cant o'r boblogaeth oedd wedi'u geni yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg (o'i gymharu â 65.4 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol).
- Yn Ynys Môn, roedd 78.2 y cant o'r boblogaeth oedd wedi'u geni yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg (o'i gymharu â 57.2 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol).
- Yn Sir Gaerfyrddin, roedd 54.0 y cant o'r boblogaeth oedd wedi'u geni yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg (o'i gymharu â 43.9 y cant o'r boblogaeth yn gyffredinol).

Noder y caiff myfyrwyr eu cyfrif yn eu cyfeiriad adeg tymor, ac mae'n debygol eu bod yn cyfrif am nifer sylweddol o'r bobl oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru.

- Roedd y bwlch rhwng cyfran y bobl oedd wedi'u geni yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg a chyfran y bobl oedd wedi'u geni y tu allan i Gymru sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran, gyda'r bwlch lleiaf (3 pwynt canran) ar gyfer plant 3 i 15 oed. Roedd y bwlch mwyaf ar gyfer pobl 16-24 oed a'r grwpiau oedran hŷn (myfyrwyr yw'r rheswm tebygol ar gyfer pobl 16-24 oed).
- Roedd 88.2 y cant o siaradwyr Cymraeg wedi'u geni yng Nghymru, sef gostyngiad bach o'i gymharu â 89.1 y cant yn 2001.
- Gofynnwyd am hunaniaeth genedlaethol am y tro cyntaf yng Nghyfrifiad 2011. O'r rheini oedd yn gallu siarad Cymraeg, roedd 76.5 y cant yn dweud eu bod yn Gymru yn unig (o'i gymharu â 52.8 y cant ar gyfer y rheini nad oeddent yn siarad Cymraeg).

Roedd bwletinâu ystadegol blaenorol yn nodi'r rhesymau posibl am y gostyngiad cyffredinol mewn siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys newidiadau demograffig a mudo, ac mae angen ystyried y rhain wrth gymharu â 2001, yn ôl gwlad enedigol a nodweddion eraill.

Cyswllt

Llinell Ymholiadau Cyffredinol

Ffon: 029 2082 3332

E-mail: ystadegau.poblogaeth@cymru.gsi.gov.uk

